

PRICE, THOMAS ('Carnhuanawc'; 1787 - 1848), clerigwr a hanesydd

Enw: Thomas Price
Ffugenw: Carnhuanawc
Dyddiad geni: 1787
Dyddiad marw: 1848
Rhiant: Mary Price (née Bowen)
Rhiant: Rice Price
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr a hanesydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Brinley Rees

Ganwyd 2 Hydref 1787 yn Pencaerelin yn Llanfihangel Bryn Pabuan, sir Frycheiniog, yr ail o ddau blentyn Rice Price, ficer Llanwrthwl o 1789 hyd ei farw yn 1810, a Mary Bowen, Pencaerelin hithau'n ferch i glerigwr ac o dras bonheddig. Ar yr aelwyd gartref clywai'r bachgen hen gerddi a thraddodiadau'r werin, cywyddau **Dafydd ap Gwilym**, ac, ar dro, fiwsig y delyn. Bu ef a'i frawd mewn tair ysgol yn y pentref ac yn ysgol ficerdy Llanafan ddwy filltir o'u cartref. Wedi i'r teulu symud i Lanfair ym Muellt yn 1800 bu am bum mlynedd mewn ysgol 'glasurol' a gynhelid gan gurad y plwyf. O'i fachgendod, hoff oedd ganddo bob ceinder ac yr oedd yn hynod ddehau â'i ddwylo. Yn 1805, â'i fryd ar urddau eglwysig, aeth i ysgol Coleg Crist yn Aberhonddu, gan letya yn y dref honno. Tra bu yno byddai'n ymweld yn gyson â thy **Theophilus Jones**, a bu'n cynorthwyo'r hanesydd i ddwyn yr ail gyfrol o'i waith i ben. Ei waith ef oedd llawer o'r lluniau ynddi, ac yn *Archaeologia*, xvii, cyhoeddwyd llythyr a sgrifennodd at **Jones** yn 1811 yn disgrifio olion Rhufeinig gerllaw Llandrindod. Ar 10 Mawrth 1811 ordeiniwyd ef yn ddiagon a'i wneud yn gurad Llanllyr yn Rhos a Llanfihangel Helygen yn sir Faesyfed; derbyniodd urddau offeiriad y flwyddyn wedyn, 12 Medi. Yn Ebrill 1813 symudodd i Grughywel fel curad Llangeneu, Llanbedr Ystrad Yw, a Patrishow, ac yn 1816 daeth Llangatwg a Llanelli hefyd o dan ei ofal. Yng nghydiad 1819-20 bu bron iddo fynd yn offeiriad i India'r Gorllewin, ond fe'i darbyllwyd i newid ei feddlw ar y funud olaf. Derbyniodd ficeriaeth Llanfihangel Cwm-du yn 1825 a churadiaeth Tretwr yn ychwanegol ati yn 1839, ond parhaodd i fyw yng Nghrughywel hyd 1841 pan gododd ficerdy yng Nghwm-du. Apwyntiwyd ef yn ddeon gwlad rhan o ddeau Brycheiniog yn 1832.

Ymddangosodd nifer o erthyglau gan 'Carnhuanawc' yn *Seren Gomer*, 1824, ac fe ddaliodd i gyfrannu i'r cylchgronau ar hyd y blynyddoedd. Ymgymerth ef a chyfaill iddo â sgrifennu llythyr neu erthygl i ryw gyhoeddiad Cymraeg neu'i gilydd bob mis. Yr oedd hefyd yn gefnogwr brwd i'r eisteddfodau taleithiol a gychwynwyd o 1819 ymlaen ac yn areithiwr huawdl ynddynt. Enillodd wobrau yn yr eisteddfodau hyn am draethodau ar berthynas y Cymry â'r Llydawiaid (y Trallwng, 1824), hanes tywysogion Cymru (yn Gymraeg, Lerpwl, 1840), gwerth cymharol llên Cymru, Iwerddon, a Sgotland (Abergafenni, 1845), a stadud Rhuddlan, (Abergafenni, 1848). Yr oedd yn fawr ei ddiddordeb yn hynafiaethau'r gwledydd Celtaidd a bu ar daith ar y Cyfandir yn 1825, yn Iwerddon ac yn Sgotland yn ystod y ddwy flynedd wedyn, ac yng Nghernyw yn 1839. Gwnaeth gymaint â neb i beri i'r Cymry a'r Llydawiaid ymwybod â'u hen berthynas. Dysgodd Lydaweg, ac o 1824 hyd 1835 yr oedd yn gohebu'n barhaus â'r Feibl Gymdeithas ynghylch cyfieithu'r *Beibl* yn yr iaith honno, tasg y ceisiodd ganddi ei chyflawni cyn gynhared â 1819. Adolygodd gyfieithiad Le Gonidec dros y gymdeithas ac yn 1829 aeth â geiriadur Lladin a Chymraeg **Dr. John Davies** bob cam i Ffrainc i fod yn gynorthwy i'r cyfieithydd wrth drosi'r Hen Destament. Ar ei daith bu'n chwilio'n ofer am hen lawysgrifau Cymraeg neu Lydaweg yn llyfrgelloedd Llydaw a Pharis. Mor gynnar â hyn yr oedd yn awgrymu sefydlu cymdeithas lenyddol i hynafiaethwyr Cymru a Llydaw gael cyfnewid meddyliu, a mynnai i rai o'r Cymry fynd drosodd i Lydaw i gychwyn eisteddfod yno. Enwir ef fel un o'r rhai a helpodd i gychwyn y **Cambrian Quarterly Magazine** yn 1830.

Yn 1829 cyhoeddodd *An Essay on the Physiognomy and Physiology of the present Inhabitants of Britain* fel ateb i ddaliadau John Pinkerton ynghylch tarddiad yr hil ddynol. Yn 14 rhan, rhwng 1836 a 1842, yr ymddangosodd ei brif waith, sef *Hanes Cymru a Chenedl y Cymry o'r Cynoesodd hyd at Farwolaeth Llewelyn ap Gruffydd*. Er bod ei arddull yn drwsig Seisnigaidd ac nad yw'n dadansoddi ei ffynonellau yn null haneswyr diweddarach, ni chafwyd gwell llyfr ar hanes Cymru am flynyddoedd lawer. Cyhoeddwyd ei draethawd, *The Geographical Progress of Empire and Civilisation*, yn gyntaf yn Almaeneg yn yr *Augsburg Gazette* ac yna yn Saesneg yn yr *Athenaeum* ac yn 1847 fel llyfr. Mawr oedd sêl 'Carnhuanawc' dros iaith a diwylliant y Cymry. Tua 1820 cododd ysgol ar ei gost ei hun yn y Gelli Felan a'r addysg gan mwyaf yn Gymraeg. Yn 1833 dadleuai yn y Wasg dros gael ysgolion Cymraeg. Fel deon gwlad mynnai i'r offeiriad arfer iaith eu plwyfolion wrth eu hyfforddi. Yn 1844 sgrifennodd gyfres o lythyrâu dienn i'r Wasg yn llym gondeinio rhoi gofal plwyfi ac esgobaethau Cymraeg i glerigwyr anghyfiaith a throli gwasanaethau'n Saesneg i foddio ychydig estroniaid cefnog. Trwy ei ymdrechion ef sefydlwyd yn 1823 Cymdeithas Cymreigyddion Aberhonddu; dewiswyd ef yn llywydd arni. Yn fuan wedyn llwyddodd i sefydlu'r 'Welsh Minstrelsy Society' gan gasglu digon o arian i dalu telynor yn Aberhonddu am ddysgu nifer o fechgyn dall i ganu'r delyn. Yr oedd ganddo ddiddordeb byw ar hyd ei oes mewn popteith ynghylch â'r dechreuodd ef ei hun ddysgu canu'r offeryn pan oedd yn ysgol Aberhonddu. Pan ffurfiwyd Cymdeithas Cymreigyddion y Fenni yn 1833 rhoed enw Thomas Price yn gyntaf ar restr yr aelodau fel arwydd o barch tuag ato. Ni ffynnodd y gymdeithas yn hir ar ôl ei farw ef. Cymerth ran yng ngwaith y 'Welsh Manuscripts Society' hefyd, gan olygu'r *Iolo Manuscripts* ar ôl marw **Taliesin ab Iolo**. Medrai ennill edmygedd a chydweithrediad y gwyr mawr a gefnogai gymdeithasau Cymreig ac eisteddfodau'r cyfnod ond yr un pryd mynegai'n growy ei edmygedd o'r werin bobl a oedd yn coledd iaith a llên y genedl. Gohebai â llawer o sgrifenywyr eraill o gyffelyb fryd ag ef ei hun fel **John Jenkins** (Ceri), Le Gonidec, a Hersart de Villemarqué, a chyfrifid ef ymhlith y pennaf o ysgolheigion Celtig ei ddydd. Gwisgai 'Carnhuanawc' bob amser ddillad o ddefnydd cartref. Yr oedd yn ddyfnodedig o hardd ac o ran cymeriad yn hael, yn ddiwenwyn, ac yn hawddgar. Bu farw 7 Tachwedd 1848 a chladdwyd ef yn Llanfihangel Cwm-du. Cyhoeddwyd rhai o'i draethodau yn ei *Literary Remains* (Llandoverly, 1854-5), ac fel ail gyfrol i'r gwaith hwnnw ysgrifennodd **Jane Williams** ('Ysgafell') gofiant iddo.

Awdur

Brinley Rees, (2001)

Ffynonellau

Thomas Price, Jane Williams (gol.), *The literary remains of the Rev. Thomas Price, Carnhuanawc*, Cyf.I; Cyf.II

T. Gwynn Jones yn *The Welsh Outlook*, 1923, 38, 70

Oxford Dictionary of National Biography (J. E. Lloyd)

Archifau LIGC: NLW MS 964i-iiE: Thomas Stephens Manuscripts: Letters, A-M

Archifau LIGC: NLW MS 965i-iiE: Thomas Stephens Manuscripts: Letters, M-W

Archifau LIGC: NLW MS 3306C: J. T. Jones Manuscripts: 'Hanes y Cyhoeddiadau Misol Cymraeg...'

Archifau LIGC: NLW MS 6606D: Traherne-Mansel Franklen Manuscripts: Glamorgan 'collectanea' of William Davies

Archifau LIGC: NLW MS 6598D: Traherne-Mansel Franklen Manuscripts: Letters to J. M. Traherne, &c.

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Thomas Price

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: NLW MS 1464D: Welsh Harp, Harpists, &c.

VIAF: 1432176

Wikidata: Q3395909

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Tranhu

Arddull APA

x

Rees, B., (1953). PRICE, THOMAS ('Carnhuanawc'; 1787 - 1848), clericigr a hanesydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 9 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-PRIC-THO-1787>

Prifysgol

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LIGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Modeld gan
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government